# Pwyllgor Adolygu Gweithredol

**15 Mawrth 2023**

Yn bresennol: Dr R Plummer (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Cynghorydd R Jordan, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd M Wiggins, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.20am; 11.30am - 12.00pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Dr S Hancock.

**2. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Ymddiriedolwr Plantlife. Fodd bynnag arhosodd yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022 i’w cadarnhau a’u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022.

**4. Log Gweithredu**

Gofynnodd y Cadeirydd am i'r camau gweithredu gael eu rhifo yn y dyfodol a bod y rhai oedd wedi'u cwblhau yn cael eu graddliwio. Nodwyd bod coed wedi’u plannu yn Saundersfoot yr wythnos flaenorol. Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch cael Ystafell Werdd newydd, ac eglurodd y Prif Weithredwr y byddai proses dendro arall mewn dau gam yn cychwyn cyn hir.

**Nodwyd.**

**5. Partneriaeth Natur Sir Benfro**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i’r cyfarfod i Ant Rogers, Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth Partneriaeth Natur Sir Benfro. Roedd ei adroddiad yn amlinellu gwaith y Bartneriaeth, yng nghyd-destun yr Argyfwng Natur a ddatganwyd gan y Senedd fis Mehefin 2021, a’r effeithiau cymdeithasol ac economaidd yn sgîl colli bioamrywiaeth. Nodwyd bod y cymorth ariannol hirdymor a ddarparwyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gan Cyngor Sir Penfro dros y 23 mlynedd diwethaf wedi bod yn allweddol i lwyddiant y Bartneriaeth.

Roedd y Bartneriaeth wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur ar gyfer Sir Benfro i lywio’r camau gweithredu ar lawr gwlad yn unol â’r blaenoriaethau strategol. Mae'r Bartneriaeth yn cyflogi 2 swyddog (1.6 cyfwerth ag amser llawn) oedd wedi llwyddo i gael cyllid a chyflawni prosiectau mawr a ariannwyd gan grantiau, ac wedi cyflawni gwaith ehangach gyda’r partneriaid ar draws y sector oedd o fudd i bobl Sir Benfro, ac aeth yr adroddiad rhagddo i dynnu sylw at rai prosiectau diweddar.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am ei gyflwyniad, a gofynnwyd am i’r cyflwyniad gael ei ddosbarthu, a chanmolwyd ymrwymiad, llwyddiant a pherfformiad pawb oedd yn rhan o’r gwaith – y staff, y partneriaid a’r gwirfoddolwyr. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y gwaith hwn yn faes blaenoriaeth i'r Awdurdod, ac fel rhan o ehangu nifer y staff, roeddent wedi penodi Pennaeth Adfer Natur yn ddiweddar a'u bod yn y broses o recriwtio Swyddog Cadwraeth ychwanegol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr her fwyaf a wynebir i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, atebodd y swyddogion bod diffinio'r hyn a olygir wrth safleoedd gwarchodedig a phenderfynu pa mor effeithiol yw’r mesurau hynny o warchod safleoedd, yn hollbwysig. Nododd un Aelod bod ymgynghoriad ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ar “Newidiadau polisi a dargedir i Bolisi Cynllunio Cymru ynglyn â budd net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau”, a dywedodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu y gellid cyflwyno ymateb drafft yr Awdurdod gerbron yr Aelodau, a chytunodd yr Aelodau y byddai hynny'n fuddiol.

**Nodwyd.**

**6. Rheoli Hamdden yn y Parc Cenedlaethol**

Roedd adroddiad y Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth yn rhoi trosolwg o waith yr Awdurdod mewn perthynas â’r Pencampwriaethau Rhwyfo Arfordirol y Byd a Sbrintiau Traeth a gynhaliwyd yn Saundersfoot fis Hydref 2022 a'r ardystiad Cynaliadwyedd mewn Rheoli Digwyddiadau a ddyfarnwyd i’r digwyddiad (ISO 201221). Dywedwyd mai’r pencampwriaethau hyn oedd y digwyddiad cyntaf o'i fath i lwyddo i ennill yr ardystiad, ac aeth y swyddog ymlaen i amlinellu'r hyn a ddysgwyd o’r digwyddiad y gellid ei gymhwyso i ddigwyddiadau eraill, a'r gwaddol a adawyd gan y digwyddiad. Yn ymuno â'r Swyddog oedd Rachel Dulai, Cynhyrchydd Digwyddiadau Rhwyfo Prydain, a roddodd gyflwyniad yn amlinellu pam y cynhaliwyd y digwyddiad yn Sir Benfro a pham y ceisiwyd achrediad ISO. Roedd gwerthuso'r digwyddiad wedi'i seilio ar nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, yr oedd dros 90% ohonynt wedi'u cyflawni’n llawn neu'n rhannol, ac amlinellwyd y dangosyddion hyn hefyd.

Nododd yr Aelodau bod y digwyddiad wedi bod yn dda i Sir Benfro ac yn arbennig i gymuned leol Saundersfoot. Roeddent yn falch y llwyddwyd i gael ardystiad gan bwysleisio pa mor bwysig yw cydweithio i gyflawni’r llwyddiant hwn. Y gobaith oedd y gellid cymhwyso'r hyn a ddysgwyd i ddigwyddiadau eraill yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.20am a 11.30am]

**7. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2023**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2022/23. Gan fod yr Awdurdod yn mynd drwy gyfnod o newid, roedd fframwaith trosiannol o fesur perfformiad wedi'i roi ar waith ar gyfer 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Ionawr ac yn cynnwys ystadegau Ch1 – Ch3 ar gyfer rhai setiau data a gofnodir yn chwarterol; roedd yn tynnu sylw at y meysydd hynny lle'r oedd targedau mewn coch neu oren neu lle'r oedd cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ers yr adroddiad blaenorol. Nodwyd bod yr ystadegau cynllunio wedi'u hadolygu a'u diweddaru o'r rhai a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn ddiweddar.

Mynegodd yr Aelodau beth pryder am nad oedd yr adolygiad o’r cyflogau a graddfeydd wedi’i gwblhau, y gweithwyr heb gwblhau’r wybodaeth am fonitro cydraddoldeb y gweithlu, yr Adolygiadau o Ddatblygiad Personol Aelodau heb eu cwblhau, yr ystadegau salwch a diogelu data a chydymffurfio â’r mesurau seiberddiogelwch heb eu cwblhau. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r Pwyllgor bod y meysydd hyn yn cael eu monitro a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn. O ran y perfformiad cynllunio, dywedodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu bod y tîm yn dal heb fod yn gyflawn a bod ymarferiad recriwtio yn cael ei gynnal ar hyn o bryd; roedd hi'n obeithiol y byddai'r swyddi yn cael eu llenwi. Fodd bynnag, roedd hi’n falch bod canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser wedi gwella ers y chwarter blaenorol.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adolygu Gweithredol ar gynhaliwyd ar 14/06/2023 heb eu diwygio. |